



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2016 - 2017

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2016 - 2017

MYNEGAI

1. CYDYMFFURFIO Â'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG
2. RHEOLI A GWEINYDDU'R CYNLLUN
3. SGILIAU IAITH GYMRAEG
4. PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG
5. DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Y Comisiwn sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r adroddiad hwn; yr Ysgrifennydd, Mr Steve Halsall, a ddrafftiodd yr adroddiad. Paratowyd yr adroddiad yn unol â thempled adroddiadau 2015/16 Comisiynydd y Gymraeg.

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn cynnwys 12 gweithiwr amser llawn a dau weithiwr rhan-amser. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi parhau i weithredu'n dda, ac nid adroddwyd am unrhyw broblemau gan y staff. Ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion mewn perthynas â'r ddarpariaeth gwasanaethau gan y Comisiwn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar gyfer y mwyafrif o gyfnod adrodd 2016/17, dilynodd y Comisiwn ei Gynllun Iaith Gymraeg presennol; yn unol â hynny, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn canolbwyntio ar y Cynllun hwnnw gan mwyaf. Derbyniodd y sefydliad Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 25 Gorffennaf 2016, ac mae wrthi'n mynd trwy gyfnod o drawsnewid prysur, wrth i'r sefydliad symud o'r Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg. Daeth nifer o'r Safonau a bennir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol yn weithredol ar ddiwedd Ionawr 2017. Gan gadw at yr amserlen a bennwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol, dylai'r Comisiwn gydymffurfio'n llawn â'r Safonau erbyn diwedd Gorffennaf 2017. Bydd Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2017/18 yn canolbwyntio ar Safonau'r Gymraeg yn unig fel y'u pennwyd yn Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol Comisiynydd y Gymraeg yn 2016.

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a noddir ac a ariennir gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Comisiwn yn cynnal ei gyfarfodydd yn ei swyddfeydd yng Nghaerdydd, ac mae'n cael cymorth Ysgrifenyddiaeth (sydd hefyd yn cynorthwyo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru). Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i gyfansoddi o dan atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 gyda'r aelodaeth ganlynol:

Cadeirydd	Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
Dirprwy Gadeirydd	Barnwr yr Uchel Lys wedi'i benodi gan yr Arglwydd Ganghellor
Dau Gomisiynydd	Wedi'u penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol
Asesydd	Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr
Asesydd	Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans
Ysgrifennydd	Swyddog wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol i arwain yr Ysgrifenyddiaeth

Swyddogaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru yw adolygu cynrychiolaeth pobl Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn barhaus. Yn benodol, mae Deddf 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn pennu gofyniad ar y Comisiwn i gynnal arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau Seneddol bob pum mlynedd.

Wrth gynnal arolwg, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru gyhoeddi argymhellion, gwahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion, a rhoi ystyriaeth i unrhyw gynrychiolaethau. Rhaid i'r Comisiwn gynnal o leiaf dau, ac nid mwy na phump o Wrandawiadau Cyhoeddus yn Nghymru.

Ar ddiwedd arolwg, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'i argymhellion terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn adroddiad y mae'n ofynnol iddo/iddi ei roi gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, naill ai gydag addasiadau neu hebddynt. Os caiff addasiadau eu cynnig, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno datganiad o resymau dros yr addasiadau hynny. Os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd, cyflwynir y Gorchymyn i'w wneud gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, daw'r ffiniau etholaethau newydd i rym yn yr etholiad cyffredinol dilynol.

1. CYDYMFFURFIO Â'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

a. Adroddiad yn erbyn pob targed o fewn yr amserlen

Mesur	Targed yr Amserlen	Adroddiad
Sicrhau y bydd y Comisiwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	<p>Mae 100% o'r wybodaeth argraffedig ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunydd ysgrifennu corfforaethol arall y Comisiwn yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael eu dangos yn gyfartal.</p> <p>Mae 'stondin gwib' a 'baneri rollo' y Comisiwn yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal a'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.</p> <p>Mae'r Comisiwn yn cynnal gwefan gwbl ddwyieithog, a chaiff negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol (e.e. ar Facebook a Twitter) eu cyhoeddi'n ddwyieithog.</p> <p>Mae aelodau staff yn gallu defnyddio cyfleusterau gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, fel 'Cysgeir' a 'Cysill', i wella hyder ac annog defnyddio Cymraeg ysgrifenedig yn ehangach. Mae dogfen Ymadroddion Cymraeg wedi'i llunio, a chaiff ei diweddarau fel bo'r angen, ac mae'n darparu ymadroddion safonol i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w defnyddio</p>

		<p>mewn dogfennau/negeseuon e-bost/llythyrau ac ati. Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn yr holl gyfarfodydd cyhoeddus.</p> <p>Mae pob cyhoeddiad / cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn yn dweud yn glir y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Lle cynhelir gwrandawiadau cyhoeddus, mae'r Comisiwn yn sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael bob amser, gan felly gyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Comisiwn Ffiniau i Gymru fel sefydliad â hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Cynhyrchir cyhoeddiadau naill ai'n ddwyieithog neu ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd fersiynau Saesneg yn y dyfodol o gyhoeddiadau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cynghori bod fersiynau Cymraeg ar gael hefyd. Mae llythyrau sy'n cyd-fynd â chyhoeddiadau yn cynnwys llinell yn dweud wrth y cyhoedd bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.</p> <p>Mae dau (16.66%) aelod o staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg, ac mae un aelod o staff wedi bod yn mynd i wersi Cymraeg.</p> <p>Mae Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith wedi'i greu, ac mae ar gael i bob aelod o staff; mae sesiwn hyfforddi ategol gydag aelodau staff i'w chynnal yn fuan. Bydd hyn yn addysgu ac yn atgoffa staff ynglŷn â rhwymedigaethau'r sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg.</p>
<p>Sicrhau bod polisiâu newydd yn ystyried egwyddor cydraddoldeb y Gymraeg a'r Saesneg</p>	<p>Eisoes wedi'i weithredu</p>	<p>Mae'r Ysgrifennydd yn ymdrin â phob polisi a menter newydd yn bersonol, ac, fel swyddog monitro'r Comisiwn, mae'n sicrhau y cydymffurfir â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn a Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â nhw.</p>
<p>Sefydlu darpariaeth Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg</p>	<p>Eisoes wedi'i weithredu</p>	<p>Mae Gwasanaethau Cyfieithu i'r Comisiwn dan gontract, a oedd i fod i ddod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Fe wnaeth y Comisiwn ymestyn ei gontract gyda'r darparwr presennol am 12 mis arall am fod y Comisiwn yn mynd trwy gyfnod prysur eithriadol, ac am na wnaeth monitro'r contract godi unrhyw bryderon mawr ynglŷn â'r darparwyr presennol. Daw'r contract</p>

		<p>presennol, felly, i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2018, pan ymgwymerir ag ymarferiad tendro llawn, lle cynhelir asesiadau llawn o allu ac ansawdd.</p> <p>Mae aelodau staff yn y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg yn sicrhau ansawdd cyfieithiadau fel rhan o'r drefn.</p>
Rhaid argraffu pob deunydd ysgrifennu yn ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	<p>Ar hyn o bryd, mae'r holl dempledi llythyrau yn ddwyieithog, ac mae'r system TG yn cynhyrchu llythyrau'n ddwyieithog yn awtomatig. Bydd unrhyw dempledi llythyrau newydd sy'n cael eu paratoi i gyd yn cael eu cyfieithu'n broffesiynol.</p> <p>Roedd 100% o'r wybodaeth argraffedig ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunydd ysgrifennu corfforaethol arall y Comisiwn yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael eu dangos yn gyfartal.</p>
Rhaid cyhoeddi pob hysbysiad i'r wasg yn ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	<p>Caiff holl hysbysiadau'r Comisiwn i'r wasg eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Pe bai angen cyhoeddi unrhyw hysbysiadau ar wahân, byddai'r cyhoeddiad Saesneg yn dweud, yn Gymraeg, bod fersiynau Cymraeg ar gael hefyd. Mae cyhoeddiadau yn cynnwys llinell sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>
Rhaid cyhoeddi pob datganiad newyddion a chylchlythyr yn ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	<p>Caiff pob datganiad newyddion y Comisiwn ei gyhoeddi'n ddwyieithog.</p>
Rhaid argraffu pob llyfryn gwybodaeth yn ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	<p>Caiff yr holl lyfrynnau gwybodaeth eu hargraffu'n ddwyieithog. Pe bai angen cyhoeddi unrhyw lyfrynnau ar wahân, byddai'r cyhoeddiad Saesneg yn dweud, yn Gymraeg, bod fersiynau Cymraeg ar gael hefyd.</p>
Rhaid paratoi pob adroddiad a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ffurf ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	<p>Cyhoeddwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2015/16, gyda'r ddwy fersiwn ar gael yr un pryd a'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran fformat, maint ac amlygrwydd. Bydd Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2016/17 yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog hefyd. Bydd y fersiwn Saesneg yn dweud wrth y</p>

		darllenydd, yn Gymraeg, bod fersiwn Gymraeg o'r Adroddiad Blynyddol ar gael hefyd.
Rhaid argraffu pob deunydd argraffedig arall yn ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	Caiff 100% o'r deunydd argraffedig a gynhyrchir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei argraffu'n ddwyieithog, neu fel cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan fydd cyhoeddiadau ar wahân yn cael eu cynhyrchu, trefnir bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd, gyda'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran fformat, maint ac amlygrwydd. Lle bydd dogfennau yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y cyhoeddiad Saesneg yn dweud, yn Gymraeg, bod fersiynau Cymraeg ar gael hefyd.
Rhaid i bob deunydd ysgrifennu wahodd cyswllt yn y Gymraeg	Eisoes wedi'i weithredu	Roedd unrhyw lythyrau a gynhyrchwyd yn dweud ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
Rhaid i bob cyhoeddiad wahodd cyswllt yn y Gymraeg	Eisoes wedi'i weithredu	Cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru Adroddiad Cynigion Cychwynnol Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yn ystod mis Medi 2016 – cyhoeddwyd hwn yn ddwyieithog. Mae pob cyhoeddiad / cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn yn dweud yn glir y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Caiff cyhoeddiadau eu cynhyrchu naill ai'n ddwyieithog neu ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd cyhoeddiadau Saesneg yn y dyfodol yn cynghori, yn Gymraeg, bod fersiynau Cymraeg ar gael hefyd. Mae llythyrau sy'n cyd-fynd â chyhoeddiadau yn cynnwys llinell yn dweud wrth y cyhoedd bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Ymateb i bob gohebiaeth yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y gohebydd	Eisoes wedi'i weithredu	Ymatebwyd yn Gymraeg i 100% o'r ohebiaeth Gymraeg. Cafodd mwyafrif yr ohebiaeth Gymraeg ei phrosesu'n unol â gwasanaeth cyfieithu dan gontract. Darparwyd cyfieithiadau syml gan aelodau staff sy'n siarad Cymraeg.
Ymateb i bob gohebiaeth o fewn yr un ffrâm amser p'un ai derbynnir yn Gymraeg neu yn Saesneg	Eisoes wedi'i weithredu	Derbyniwyd dros 800 o ddarnau o ohebiaeth (yn cynnwys negeseuon e-bost, llythyrau a chyfathrebiadau trwy borth ymgynghori'r Comisiwn) gan y Comisiwn

		<p>Ffiniau i Gymru yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys 798 o gynrychiolaethau. Roedd amserau ymateb i ohebiaeth a chynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn yr un fath, ni waeth pa iaith a ddefnyddiwyd yn yr ohebiaeth wreiddiol.</p> <p>Roedd yr Ysgrifennydd yn gallu monitro'r perfformiad hwn gan y cafodd mwyafrif yr ohebiaeth Gymraeg ei phrosesu'n unol â gwasanaeth cyfieithu dan gontract. Ymatebodd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i ohebiaeth achlysurol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog; caiff hyn ei fonitro gan yr anfonir copi o ymatebion i'r Ysgrifennydd a/neu'r Dirprwy Ysgrifennydd.</p> <p>Yn ogystal, fe wnaeth presenoldeb dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg helpu i alluogi'r Comisiwn i ymateb ymhell o fewn graddfeydd amser gan y gall gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg gael ei chyfieithu i'r Saesneg yn aml a'i rhoi i gydweithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w hystyried yn ddi-oed.</p>
<p>Gohebu yn Gymraeg â'r rheiny y mae'n well ganddynt wneud trwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Eisoes wedi'i weithredu</p>	<p>Ysgrifennwyd yn Gymraeg at 100% o'r bobl neu'r sefydliadau sy'n gweithio yn Gymraeg neu y mae'n well ganddynt dderbyn llythyrau yn Gymraeg. Naill ai darparwyd y deunydd ysgrifenedig gan staff sy'n siarad Cymraeg, neu paratowyd dogfennau Cymraeg gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu dan gontract.</p>
<p>Cynnal rhestr o'r rheiny y mae'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg</p>	<p>Eisoes wedi'i weithredu</p>	<p>Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cadw cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno delio â'r Comisiwn yn Gymraeg.</p>
<p>Sicrhau bod cyfleusterau'n bodoli i alluogi'r rheiny sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg ar y ffôn wneud hynny.</p> <p>Darparu arweiniad i staff yr Ysgrifenyddiaeth i'w galluogi i ymdrin â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg</p>	<p>Eisoes wedi'i weithredu</p>	<p>Atebwyd 100% o alwadau ffôn yn ddwyieithog. Mae pob aelod o staff yn yr Ysgrifenyddiaeth yn gallu darparu cyfarchiad ffôn dwyieithog. Yn ystod y flwyddyn, deliodd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg â'r holl alwadau ffôn a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Os nad oes unrhyw aelodau staff Cymraeg ar gael, o dan delerau'r contract cyfieithu, gallai gwasanaeth cyfieithu'r Comisiwn ddarparu cyfieithiad ar y pryd. Fel arall, gellid gwneud trefniadau i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ffonio'n ôl pan fydd yn</p>

		dychwelyd.
Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn Gwrandawiadau Cyhoeddus	Eisoes wedi'i weithredu	Cynhaliodd y Comisiwn bum Gwrandawriad Cyhoeddus yn ystod y cyfnod adrodd: yn Wrecsam, Bangor, Llandrindod, Caerfyrddin a Chaerdydd. Mae gweithdrefnau yn eu lle, yn seiliedig ar arfer blaenorol, i hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd/gwrandawiadau cyhoeddus, gan gynnwys darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a phresenoldeb aelodau staff sy'n siarad Cymraeg pryd bynnag y bo modd.
Sicrhau bod arwyddion gwybodaeth y Comisiwn mewn Gwrandawiadau Cyhoeddus yn gwbl ddwyieithog	Eisoes wedi'i weithredu	Fel y dywedwyd yn flaenorol, cynhaliodd y Comisiwn bum Gwrandawriad Cyhoeddus yn ystod y cyfnod adrodd; dim ond 'stondinau gwib', 'baneri rollo' ac arwyddion dros dro cwbl ddwyieithog a ddefnyddiwyd ym mhob gwrandawriad.
Rhaid i gyfeiriad at y cynllun hwn gael ei gynnwys yn llyfrynnau gwybodaeth y Comisiwn	Pan ail-argreffir nesaf	Roedd llyfrynnau gwybodaeth a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys: Canllaw i'r Arolwg 2018; Canllaw Cyflym i'r Arolwg 2018; ac Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, Llyfryn Gwybodaeth 2016. Cyhoeddwyd yr holl lyfrynnau gwybodaeth yn ddwyieithog. Roedd Llyfryn Gwybodaeth 2016 yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Ffiniau i Gymru.
Sicrhau bod y cynllun yn cael ei gynnwys yn llawlyfr hyfforddi staff yr Ysgrifenyddiaeth	Parhaus	Nid oes llawlyfr hyfforddi staff gan yr Ysgrifenyddiaeth, fel y cyfryw. Mae cyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio wedi'u cynhyrchu cyn Arolwg Seneddol 2018 (y cychwynwyd gwaith arno yn 2016), a chânt eu diweddarau fel bo'r angen. Bydd y cyfarwyddiadau a'r rhestri gwirio yn cynnwys cyfeiriadau at y Cynllun, a byddant yn sicrhau bod ansawdd fersiynau Cymraeg o Adroddiadau yn cael ei sicrhau a'u bod yn cael eu cyhoeddi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.
Sicrhau bod pob Comisiynydd, Comisiynydd Cynorthwyol,	Parhaus	Mae copïau o'r Cynllun wedi'u darparu i bob Comisiynydd, Comisiynydd Cynorthwyol a

<p>Cadeirydd a staff yr Ysgrifenyddiaeth yn cael copïau personol o'r cynllun ac unrhyw newidiadau dilynol iddo</p>		<p>Chadeirydd. Caiff aelodau staff eu hatgoffa'n rheolaidd o ymrwymadau'r Comisiwn o dan y Cynllun Iaith Gymraeg, naill ai drwy drafodaethau yn y swyddfa neu yn ystod cyfarfodydd tîm misol. Gan mai dim ond 14 aelod o staff sydd gan Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gweithio mewn amgylchedd cynllun agored, mae'n hawdd lledaenu gwybodaeth, ac mae aelodau staff yn wybodus iawn ynglŷn ag ymrwymiad y Comisiwn i'r Gymraeg. Cedwir y Cynllun mewn Mynegai o bolisiau, rheoliadau, codau a chyfarwyddiadau, a bydd pob aelod o staff yn mynd ato drwy eu cyfrifiaduron.</p>
<p>Sicrhau bod y gallu i siarad Cymraeg wedi'i restru fel gofyniad dymunol ar gyfer penodiadau i'r Ysgrifenyddiaeth yn y dyfodol</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Hysbysebwyd tair swydd yn ystod 2016/17. Hysbysebwyd pob swydd, yn y lle cyntaf, fel swyddi â'r Gymraeg yn Hanfodol; yn anffodus, ni ymatebodd unrhyw ymgeiswyr hyd nes i'r swyddi gael eu hysbysebu fel swyddi â'r Gymraeg yn Ddymunol; nid oedd unrhyw un o'r ymgeiswyr yn siaradwyr Cymraeg.</p>
<p>Sicrhau bod pob darparwr gwasanaethau yn cael gwybod am gynnwys y cynllun hwn</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Lle bo'n briodol, dywedir wrth ddarparwyr gwasanaethau am gynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg. Ni roddwyd unrhyw gontractau newydd yn ystod y cyfnod adrodd. Bwriedir cynnwys cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg y Comisiwn y bydd angen i'r Comisiwn gydymffurfio â nhw mewn dogfennau tendr a chontractau yn y dyfodol</p>
<p>Sicrhau bod y cynllun yn cael ei fonitro'n fewnol</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cael ei ymgorffori yn yr holl gyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio, ac mae systemau'r swyddfa yn golygu mai'r Ysgrifennydd yw'r swyddog monitro ac sy'n cymeradwyo mwyafrif yr allgynnyrch gan yr Ysgrifenyddiaeth. Mae'r Ysgrifennydd yn ymdrin â phob polisi a menter newydd yn bersonol, ac fel swyddog monitro'r Comisiwn, mae'n sicrhau y cydymffurfir â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Cytunwyd ar weithdrefnau sy'n golygu yr ymgynghorir â Chomisiynydd y Gymraeg yn</p>

		<p>ystod arolygon yn y dyfodol ynglŷn ag enwau lleoedd Cymraeg.</p> <p>Mae aelodau staff y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg yn sicrhau ansawdd cyfieithiadau fel rhan o'r drefn arferol, gan sicrhau felly bod ansawdd dogfennau Cymraeg yn cael ei gynnal.</p>
--	--	---

2. RHEOLI A GWEINYDDU'R CYNLLUN

a. ***Adroddiad ar ofynion mewn perthynas â'r Gymraeg mewn contractau, gan esbonio unrhyw drefniadau i adolygu neu gryfhau'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg***

Rhodddwyd contractau newydd yn ystod 2016/17 ac roeddent yn cynnwys y rheiny'n ymwneud â gwasanaethau trawsgrifio mewn gwrandawiadau cyhoeddus, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus. Lle bo'n briodol, pennodd y Comisiwn y gofynion ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendr a chontractau.

Oherwydd natur gwaith y Comisiwn, mae'r mwyafrif o wasanaethau i'r cyhoedd yn cael eu darparu gan aelodau staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn. Lle caiff gwasanaethau eu darparu i'r cyhoedd ar ran y Comisiwn (er enghraifft, pan fydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu mewn Gwrandawiadau Cyhoeddus), cafodd y rhai a dendrodd wybod am Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.

Bwriedir cynnwys cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg perthnasol y mae'n rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â nhw mewn dogfennau tendr a chontractau yn y dyfodol

b. ***Tystiolaeth bod trefniadau llywodraethu a chraffu mewnol cadarn ar waith ar gyfer y cynllun iaith***

Fe wnaeth yr Ysgrifennydd ymdrin â phob polisi a menter newydd yn bersonol, ac, fel swyddog monitro'r Comisiwn, sicrhodd cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.

Mae dau (16.66%) aelod o staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i: ateb ymholiadau gan gydweithwyr yn ymwneud â'r Gymraeg; ymateb i negeseuon e-bost Cymraeg; ateb ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; a, sicrhau ansawdd cyhoeddiadau Cymraeg.

Gan mai dim ond 14 aelod o staff sydd gan Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gweithio mewn amgylchedd cynllun agored, mae'n hawdd lledaenu gwybodaeth, ac mae aelodau staff yn wybodus iawn ynglŷn ag

ymrwymiad y Comisiwn i'r Gymraeg. Bu'r Ysgrifennydd yn monitro'r defnydd priodol o'r Gymraeg trwy gydol y cyfnod adrodd. Yn ogystal, caiff aelodau staff eu hatgoffa'n rheolaidd o oblygiadau'r Cynllun, er enghraifft, trwy gyfarfodydd tîm a thrafodaethau swyddfa.

Ymgorfforwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn yr holl gyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio arolygon, ac mae systemau'r swyddfa yn golygu mai'r Ysgrifennydd sy'n cymeradwyo mwyafrif yr allbwn o'r Ysgrifenyddiaeth. Yn ogystal mae Safonau'r Gymraeg priodol i'w hymgorffori mewn cyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio. Mae system TG y Comisiwn yn cynhyrchu pob cylchlythyr a llythyr safonol yn ddwyieithog yn awtomatig.

Cafodd fersiwn wedi'i diwygio o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ei chymeradwyo gan Aelodau'r Comisiwn ym mis Chwefror 2015. Rhoddwyd gwybod i'r holl aelodau staff am Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn ystod cyfarfodydd tîm, a chant eu hatgoffa'n rheolaidd am Safonau'r Gymraeg. Mae cynlluniau i drosglwyddo o'r Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg wedi'u trafod yn faith yn ystod cyfarfodydd y Comisiwn ac mewn cyfarfodydd Tîm, a bydd holl aelodau'r Comisiwn a'r staff yn mynychu.

c. *Crynodeb o gŵynion dilys a dderbyniwyd a chamau a gymerwyd*

Anogir aelodau'r cyhoedd i anfon awgrymiadau ar gyfer gwelliannau neu gŵynion ynglŷn â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Ni dderbyniwyd unrhyw awgrymiadau na chwynion ynglŷn â'r gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae ffurflen dewis iaith a thablau Excel Dewis Iaith wedi'u creu i staff eu llenwi pan fyddant yn gohebu ac yn trefnu cyfarfodydd; bydd y rhain yn atgoffa staff fod gwasanaeth cyfieithu Cymraeg i'w ddarparu lle bo rhanddeiliaid yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd ac nad oes unrhyw staff nac aelodau o'r Comisiwn sy'n siarad Cymraeg ar gael i fynychu.

Mae Cod Cwynion y Gymraeg wedi'i greu a bydd yn cael ei gyflwyno mewn Cyfarfod o'r Comisiwn yn y dyfodol. Bwriad y Cod yw sicrhau bod holl aelodau'r Comisiwn ac aelodau staff yn deall ymateb y sefydliad i gŵynion, ac i hysbysu aelodau'r cyhoedd yn llawn ynglŷn â sut i wneud cwyn pe baent yn teimlo yr amharwyd ar eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn trafodion â'r Comisiwn.

ch. *Tystiolaeth o'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd y cynnwys iaith Gymraeg ar y wefan gorfforaethol / cynlluniau ar gyfer cynyddu a gwella'r cynnwys iaith Gymraeg*

Mae gwefan y Comisiwn yn gwbl ddwyieithog. Aelodau staff yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am ddiweddarau gwefan y Comisiwn, a chânt eu hatgoffa'n gyson o gyfrifoldebau'r Comisiwn o dan y Cynllun Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg. Mae cyfarwyddiadau desg a rhestri gwirio yn helpu sicrhau bod yr holl gynnwys ar y wefan gorfforaethol yn ddwyieithog. Yn ogystal, caiff ansawdd cyhoeddiadau ei wirio fel rhan o'r drefn gan aelodau o staff y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg cyn eu cyhoeddi ar y wefan.

3. SGILIAU IAITH GYMRAEG

a. *Gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu ac adroddiad ar y data*

Gan fod Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn fach, roedd sgiliau iaith y staff yn hysbys heb yr angen am gynnal arolwg. Mae dau aelod staff o'r Ysgrifenyddiaeth (16.66%) yn siaradwyr Cymraeg. Mae aelod o staff wedi cwblhau cwrs ffurfiol Cymraeg gyda'r nos. Mae dau aelod arall o staff wedi mynegi diddordeb i fynychu cyrsiau Cymraeg, ac mae'r Rheolwr Cymorth Busnes wrthi'n chwilio am ddarparwr hyfforddiant.

Hysbysebwyd 3 swydd yn ystod 2016/17. Hysbysebwyd pob swydd, yn y lle cyntaf, fel swyddi â'r Gymraeg yn Hanfodol; yn anffodus, ni ymatebodd unrhyw ymgeiswyr hyd nes i'r swyddi gael eu hysbysebu fel swyddi â'r Gymraeg yn Ddymunol, ac ni ddatganodd yr un o'r ymgeiswyr eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Yn ystod cyfnod adrodd 2017/18, bydd arolwg staff bach yn cael ei gynnal i sefydlu sgiliau iaith Gymraeg aelodau'r staff a'u cofnodi'n ffurfiol.

b. *Tystiolaeth o fuddsoddi mewn hyfforddiant Cymraeg ac esboniad o gamau eraill a gymerwyd i wella sgiliau'r gweithlu*

Cwblhaodd un aelod o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn gwrs Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Atgoffwyd aelodau staff bod y Comisiwn yn ystyried darparu cefnogaeth ariannol, mewn achosion priodol, pe baent yn dymuno cael hyfforddiant iaith. Mae dau aelod arall o staff wedi mynegi diddordeb i fynychu cyrsiau Cymraeg, ac mae'r Rheolwr Cymorth Busnes wrthi'n chwilio am ddarparwr hyfforddiant.

Mae aelodau staff yn yr Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn darparu arweiniad a hyfforddiant i gydweithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ynglŷn ag ynganiad enwau lleoedd Cymraeg a chyfarchion sylfaenol, yn ôl yr angen.

c. *Tystiolaeth o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith*

Mae aelodau staff o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Fel y nodwyd uchod, dim ond 14 aelod o staff sydd gan Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gweithio mewn amgylchedd cynllun agored, a gellir lledaenu gwybodaeth yn hawdd; caiff materion y Gymraeg eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Tîm ac yng nghyfarfodydd y Comisiwn. Felly, mae aelodau'r Comisiwn ac aelodau'r staff yn arbennig o wybodus ynglŷn ag ymrwymiad y Comisiwn i'r Gymraeg, ac yn gefnogol.

4. PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG

a. *Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer asesu effaith polisiâu ar yr iaith Gymraeg ac unrhyw gamau a gymerwyd i adolygu trefniadau i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal*

Mae'r Ysgrifennydd yn ymdrin â phob polisi a menter newydd yn bersonol, ac, fel swyddog monitro'r Comisiwn, sicrhodd y cydymffurfiwyd â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.

Pan gaiff penderfyniadau polisi eu gwneud, bydd y Comisiwn fel rhan o'r drefn yn ystyried yr effaith y gallai penderfyniadau felly eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; mae hyn yn arbennig o wir am fod y ddelwedd gadarnhaol o'r Gymraeg wedi'i hymgorffori'n drwyadl yng ngweithrediadau'r Ysgrifenyddiaeth o ddydd i ddydd. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyhoeddwyd yr holl ddogfennau polisi yn ddwyieithog.

Pan fydd y Comisiwn yn ymgynghori ynghylch penderfyniadau polisi, cyhoeddir yr ymgynghoriad a'r ddogfennaeth eglurhaol yn ddwyieithog, a chroesewir ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg (gellir gweld enghreifftiau o ddogfennau o'r fath ar wefan y Comisiwn).

Mae'r Ysgrifenyddiaeth wrthi'n gweithio tuag at greu dogfennau Asesiad Effaith Polisi, a fydd yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod o'r Comisiwn yn y dyfodol. Bydd yr Asesiadau yn cael eu defnyddio'n rheolaidd wedyn gan aelodau'r Comisiwn ac aelodau'r staff.

5. DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

a. Nodi risgiau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Bydd y Comisiwn yn paratoi cynllun busnes blynyddol sy'n sail i'r gyllideb a'r gwariant am y flwyddyn. Roedd y cynllun ar gyfer 2016-2017 yn cynnwys adnoddau i fodloni rhwymedigaethau'r Comisiwn a bennir yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd cynllun gweithredol blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2017-18 hefyd yn cynnwys adnoddau i sicrhau y bydd rhwymedigaethau'r Comisiwn o dan y Cynllun yn cael eu cyflawni.

Cyflwynodd y Comisiwn ei ymateb i Hysbysiad Cydymffurfio Drafft Comisiynydd y Gymraeg cyn terfyn amser yr ymgynghoriad ym mis Mai 2016. Yna aeth y Comisiwn ati i baratoi Cynllun Gweithredu i hwyluso'r trosglwyddo o'r Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg. Mae Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith wedi'i greu, ac mae ar gael i bob aelod o staff; mae sesiwn hyfforddi ategol gydag aelodau staff i'w chynnal yn fuan. Bydd hyn yn addysgu ac yn atgoffa staff ynglŷn â rhwymedigaethau'r sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu gydag aelodau'r Comisiwn hefyd. Mae'r gwaith o drosglwyddo yn parhau.

Bydd y Comisiwn yn mynd at Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'i broses ymgynghori ar arolygon er mwyn ystyried enwau lleoedd Cymraeg, a gwahoddodd y Comisiynydd i gyfarfod rhagarweiniol a gyflwynodd partïon â buddiant i waith arfaethedig ar Arolwg Seneddol 2018.

Darparwyd yn dda ar gyfer gofynion siaradwyr Cymraeg yn ystod y gwrandawriadau cyhoeddus ar ddiwedd 2016; roedd y Comisiwn wedi cynnal

cyfarfod gyda'i ddarparwr cyfieithu er mwyn sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael yn ystod y gwrandawiadau.

Mae nifer o gyfarwyddiadau desg a thempledi llythyrau'r Comisiwn wedi'u diwygio; ystyriwyd gofynion o dan y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'r broses honno. Yn ogystal, bwriedir cynnwys cyfeiriad at Safonau Iaith Gymraeg y Comisiwn y bydd angen i'r Comisiwn gydymffurfio â nhw mewn dogfennau tendr a chontractau yn y dyfodol.

b. *Enghreifftiau o arfer da perthnasol*

Mae'r Comisiwn yn cael ei galonogi gan y ffaith na dderbyniwyd unrhyw gŵynion ynglŷn â'r gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae dau (16.66%) aelod o staff yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i: ateb ymholiadau gan gydweithwyr yn ymwneud â'r Gymraeg; ateb ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; cysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith; a sicrhau ansawdd cyhoeddiadau Cymraeg.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio templedi dwyieithog. Mae cyfarwyddiadau desg wedi'u dosbarthu i'r staff, er mwyn sicrhau y cyhoeddir pob agwedd ar waith y Comisiwn yn ddwyieithog. Defnyddir rhestr gwirio gan y staff wrth gynnal arolygon etholiadol, sy'n sicrhau sicrwydd ansawdd fersiynau Cymraeg o'r Adroddiadau a'u bod yn cael eu cyhoeddi yn unol â Chynllun a Safonau Iaith Gymraeg y Comisiwn. Mae aelodau staff yn gallu defnyddio cyfleusterau gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, fel 'Cysgeir' a 'Cysill' i wella hyder ac annog defnyddio Cymraeg ysgrifenedig yn ehangach.

Hysbysebwyd 3 swydd gan y Comisiwn yn ystod 2016/17. Hysbysebwyd pob swydd fel swyddi â'r Gymraeg yn Hanfodol yn y lle cyntaf; fodd bynnag, oherwydd y prinder diddordeb yn y swyddi, er gwaethaf ymdrechion ychwanegol i ledaenu'r hysbysebion swyddi, bu'n rhaid hysbysebu'r rolau ar ôl hynny fel swyddi â'r Gymraeg yn Ddymunol.

Yn ystod y flwyddyn deliwyd â'r holl alwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gan y Cadeirydd neu gan aelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Cynhelir galwadau ffôn arferol gan y Cadeirydd i staff sy'n siarad Cymraeg yn Gymraeg fel arfer.

Mae gwefan y Comisiwn yn gwbl ddwyieithog, a chyhoeddir pob hysbysiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda'i gilydd.

Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ym mhob Gwrandawriad Cyhoeddus; caiff y cyfryw gyfleusterau eu hystyried yn awtomatig wrth baratoi'r gyllideb.

Mae arwyddion y Comisiwn ('standin gwib' a 'baneri rollo') yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg. Caiff unrhyw arwyddion dros dro eu gwneud yn ddwyieithog.

Cyhoeddir yr holl ddogfennau yn ddwyieithog gan y Comisiwn, yn cynnwys pamffledi/taflenni; cylchlythyrau; cofnodion; papurau ymgynghori; llyfrynau; arweiniad; adroddiadau; derbynebau; a, mapiau. Lle cyhoeddir dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân, trefnir bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd, gan roi cydraddoldeb i'r ddwy iaith o ran fformat, maint ac amlygrwydd. Mae enghreifftiau o'r dogfennau hyn ar gael ar wefan y Comisiwn.

c. *Tystiolaeth o ymdrechion i fonitro ansawdd gwasanaethau Cymraeg a/ neu arolygon defnyddwyr gwasanaethau*

Mae gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn i'w hymgorffori yn yr holl gyfarwyddiadau desg, ac mae systemau'r swyddfa yn golygu mai'r Ysgrifennydd yw'r swyddog monitro ac sy'n cymeradwyo mwyafrif yr allgynnyrch gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Ymatebodd y Comisiwn i'r Hysbysiad Cydymffurfio Drafft gan Gomisiynydd y Gymraeg cyn terfyn amser yr ymgynghoriad ym mis Mai 2016, a derbyniodd yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol ar 25 Gorffennaf 2016, ac mae wrthi'n mynd trwy gyfnod o drawsnewid prysur, wrth i'r sefydliad symud o'r Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg.

Mae aelodau staff yn y Comisiwn yn ymroddedig i sicrhau y caiff ansawdd yr holl gyhoeddiadau Cymraeg ei sicrhau gan aelodau staff sy'n siarad Cymraeg cyn eu cyhoeddi.